Pure

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Rheolaeth strategol ar hyfforddiant iaith mewn gweithleoedd sector cyhoeddus

Gruffydd, Ifor

Award date:
2018

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 14. Oct. 2019

RHEOLAETH STRATEGOL AR HYFFORDDIANT IAITH MEWN GWEITHLEOEDD SECTOR CYHOEDDUS

Traethawd ar gyfer gradd PhD

Gorffennaf 2018

Ifor Gruffydd
Ysgol Gwyddorau Cymdeithas
Prifysgol Bangor

CRYNODEB

Amcan y traethawd hwn yw archwilio i sut y mae cyrff cyhoeddus yng ngogledd Cymru yn cynllunio hyfforddiant mewn caffael sgiliau Cymraeg i'w staff di-Gymraeg, ac felly'n sicrhau bod y staff yma yn meddu ar sgiliau galwedigaethol allweddol er mwyn medru cyfrannu at wasanaeth dwyieithog eu cyflogwr. Mae'r astudiaeth yn edrych yn fanwl ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr hyfforddiant hwn, gan werthuso rheolaeth strategol y cyflogwyr ar draws ystod o gamau gwahanol yn y broses hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys cynllunio'r hyfforddiant; ei ddarparu; monitro ei lwyddiant; cymhwyso'r hyfforddiant i'r gweithle a chefnogi'r dysgwyr y tu allan i'r gwersi ffurfiol.

Dyma'r gwaith ymchwil cyntaf i gael ei wneud yn y maes hwn yng Nghymru a bydd yr astudiaeth hon felly yn ddechrau ar y gwaith o lenwi bwlch yn ein gwybodaeth, a gobeithio, yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer gwaith ymchwil pellach. Mae'r gwaith ymchwil empirig sy'n sail i'r traethawd hwn yn cynnwys casglu data cynhwysfawr ac eang gan gyflogwyr; gan ddysgwyr a chan 'reoleiddwyr', a cheir cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol. Mae'r data hwn, yn gyfannol, yn cynnig darlun manwl ac unigryw o sefyllfa hyfforddiant iaith ar lefel strategol ac ymarferol mewn amrywiaeth o weithleoedd yng Nghymru.

Mae'r astudiaeth yn pontio cyfnod lle daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG) i ben a lle daeth Comisiynydd y Gymraeg (CyG) i fodolaeth. Edrychir yn fanwl ar effaith ByIG fel hyrwyddwr a rheoleiddiwr hyfforddiant iaith, ac effaith hyn ar reolaeth strategol yr hyfforddiant mewn gweithleoedd ledled gogledd Cymru.

I gloi, mae canfyddiadau'r traethawd yn taflu goleuni newydd ar sefyllfa hyfforddiant iaith yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Amlygir diffygion clir (ar y cyfan) mewn gweithleoedd yn y modd y cynllunir hyfforddiant Iaith ar y lefel meicro, ond hefyd gan y rheoleiddwyr yn y modd y gweithredir ac y monitrir deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar y lefel macro. Hyderir y byddant o gymorth i weithleoedd wrth gynllunio a monitro hyfforddiant iaith yn y dyfodol. Yn ogystal, gobeithir y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion yn berthnasol ac yn gymorth i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hwyluso hyfforddiant strategol effeithiol yn y gweithle.

CYNNWYS

	Tudalen
Datganiad a Chaniatâd	ii
Crynodeb	v
Cynnwys	vi
Byrfoddau	x
Rhestr Graffiau a Thablau	xi
Cydnabyddiaeth a Diolchiadau	xiv
Pennod 1 – Cyflwyniad	1
Cyd-destun	1
Nod ac amcanion yr astudiaeth hon	3
Cynllunio caffael iaith	3
Disgwyliadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg	4
Methodoleg	6
Maes Cymraeg i Oedolion	7
Strwythur y traethawd hwn	8
Cloi	11
Pennod 2 – Adolygiad llenyddol	13
Cyflwyniad	13
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993	14
Cynlluniau Iaith Gymraeg	18
Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg	24
Strategaeth Cymraeg i Oedolion	26
Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005	28
Hyfforddiant iaith Gymraeg yn y Gweithle: Canllawiau	29
Ein Hiaith : Ei Dyfodol	30
Dyfodol Dwyieithog	31
Iaith Pawb	32
Cymru'n Un	37
Sgiliau sy'n gweithio i Gymru	37
Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog	39
Canllawiau ar gyfer trefnu hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle	39
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	42
Recriwtio a'r Iaith Gymraeg	45
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	46
Iaith Fyw : Iaith Byw	49
Codi Golygon	52
Datganiad polisi ar Sgiliau	55
Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn wyth sector	56
Iaith Fyw : Iaith Byw – Bwrw Mlaen	59

Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog 61
Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr 62
Yr Effaith ar Hyfforddiant Iaith 65
Cloi 67

Pennod 3 – Methodoleg 69
Cyflwyniad 69
Strategaethau Ymchwil 70
Manteision ac Anfanteision y Methodolegau Ymchwil a ddefnyddiwyd 72
Moeseg Ymchwil 80
Tuedd 84
Gwrthrychedd 87
Rôl yr Ymchwilydd yn y Broses Ymchwil 88
Y Sampl 90
Cloi 101

Pennod 4 – Arolwg o Gyrff Cyhoeddus 103
Cyflwyniad 103
Rhan 1 – Arolwg cychwynnol o reolaeth strategol ar hyfforddiant iaith mewn cyrff cyhoeddus sy'n gwasanaethu gogledd Cymru 103
Cyd-destun 103
Y Dadansoddiad 106
Prif Ganfyddiadau 120
Rhan 2 – Dadansoddiad Ansoddol Manylach o'r Prif ganfyddiadau yn Rhan 1 uchod 124
Cyd-destun 124
Meysydd Ymchwilio 125
Gweithdrefnau cynllunio ac ariannu hyfforddiant iaith 125
Gweithdrefnau ar gyfer monitro a chymhwyso hyfforddiant 141
Cefnogaeth cyflogwyr i weithwyr er mwyn hwyluso hyfforddiant 149
Prif Ganfyddiadau Cyffredinol 160
Cloi 164

Pennod 5 – Safbwynt Bwrdd yr Iaith Gymraeg 167
Cyflwyniad 167
Rhan 1 – Ymateb corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ganfyddiadau'r arolwg o gyrff cyhoeddus 168
Cyd-destun 168
Gwaith monitro hyfforddiant iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg 168
Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg 172
Y Canfyddiadau 172
Casgliadau 186
Rhan 2 – Cyfweliad gyda Phrif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg 189
Cyd-destun 189

Y Canfyddiadau 190
Casgliadau 198
Cloi 200

Pennod 6 – Astudiaethau Achos – Tri sefydliad cyhoeddus 203
Cyflwyniad 203
Dadansoddiad 206
Crynodeb o ddadansoddiad y tri sefydliad 243
Y Grwpiau Ffocws 247
Canfyddiadau'r Grwpiau Ffocws 257
Canfyddiadau Cyffredinol 258
Cloi 261

Pennod 7 – Safbwynt y 'Rheoleiddwyr' 263
Cyflwyniad 263
Y Nod 264
Strwythur y Dadansoddiad 264
Rhan 1 – Llywodraeth Cymru 265
Cefndir 265
Canfyddiadau 266
Rhan 2 – Comisiynydd y Gymraeg 275
Cefndir 275
Canfyddiadau 276
Rhan 3 - Cymharu ymateb Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 284
Cloi 287

Pennod 8 – Casgliadau ac Argymhellion 291
Cyflwyniad 291
Newydd-deb yr astudiaeth hon yng nghyd-destun cynllunio ieithyddol 291
Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau 292
Meysydd Ymchwil Pellach 300
Argymhellion 303
Cloi 307

Atodiadau:

Atodiad 1 309
Holiadur drwy'r post i gyrff cyhoeddus – Casglu Data Cychwynnol

Atodiad 2 325
Holiadur ar gyfer cyfweliadau lled-strwythuredig dros y ffôn gyda chyrff cyhoeddus – Casglu Data Pellach

Atodiad 3 329
Holiadur ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig gydag uwch swyddog ByIG

Atodiad 4 337
Holiadur ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig gyda Phrif Weithredwr ByIG

Atodiad 5 341
Holiadur trwy e-bost i staff a oedd yn dysgu Cymraeg mewn 3 sefydliad

Atodiad 6 363
Meysydd trafod ar gyfer Grwpiau Ffocws o ddysgwyr

Atodiad 7 365
Holiadur ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig gyda chynrychiolydd LlC

Atodiad 8 369
Holiadur ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig gyda chynrychiolydd CyG

Atodiad 9 373
Holiadur ar gyfer cyfweliad lled-strwythuredig gyda chynrychiolydd CDCG

Llyfryddiaeth 377

BYRFODDAU

AD	Adnoddau Dynol
BylG	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CAMPUS	Cymeradwy, Amser (wedi'i bennu), Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
CBAC	Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru
CDCG	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
CIG	Cynllun yr Iaith Gymraeg
CiO	Cymraeg i Oedolion
CyG	Comisiynydd y Gymraeg
DIG	Dangosydd Iaith Gymraeg
LlC	Llywodraeth Cymru
LlCC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
SSI	Strategaeth Sgiliau Iaith
SyIG	Swyddog yr Iaith Gymraeg

RHESTR GRAFFIAU A THABLAU

Ffigur	Teitl	Tudalen
Ffigur 1	Gwerthusiad o gyngor ‘cadarnhaol’ gan ByIG ar hyfforddiant iaith	22-23
Ffigur 2	Gwerthusiad o gyngor ‘llai cadarnhaol’ gan ByIG ar hyfforddiant Iaith	23
Ffigur 3	Amserlen Cyflwyno’r Safonau Iaith	47
Ffigur 4	Llwybr samplo’r astudiaeth	91
Ffigur 5	Crynodeb o’r dulliau samplo a ddefnyddiwyd	92
Ffigur 6	Cyd-destun y tri Gweithle a oedd yn rhan o’r Astudiaethau Achos	99
Ffigur 7	Enghreifftiau o fesurau a gafwyd mewn cynlluniau iaith Gymraeg ar gyfer darparu hyfforddiant iaith a’i fonitro	104-105
Ffigur 8	Bodolaeth dogfennau cynllunio strategol ymysg y sampl a holwyd	106
Ffigur 9	Ymwybyddiaeth o’r amser mae’n gymryd i ddysgu Cymraeg	107
Ffigur 10	Ar gais pwy mae staff sefydliadau yn dysgu Cymraeg	107-108
Ffigur 11	Sut yr oedd cyflogwyr yn dewis darparwr cyrsiau / derbyn cyngor am gyrsiau	108-109
Ffigur 12	Sut yr oedd gweithleoedd yn penderfynu ar gyrsiau i’w staff	110
Ffigur 13	Sut yr oedd cynnydd staff yn cael ei fonitro	111
Ffigur 14	Cymhariaeth rhwng cyflogwyr a oedd yn gosod nodau dysgu ac yn monitro cynnydd eu staff	112
Ffigur 15	Oedd Timau Rheoli / Adrannau Adnoddau Dynol yn gwerthuso llwyddiant a chost yr hyfforddiant yn flynyddol	113
Ffigur 16	Y graddau y rhyddhawyd staff o’r gweithle i ddilyn cyrsiau Cymraeg	114
Ffigur 17	Y graddau yr oedd cyflogwyr yn talu costau cyrsiau eu staff	114
Ffigur 18	Cymhariaeth o’r gefnogaeth ariannol ac amser gan gyflogwyr i’w staff sy’n dysgu Cymraeg	115

Ffigur 19	Y graddau yr oedd gweithleoedd yn mynnu bod eu staff yn mynychu bob gwers?	116
Ffigur 20	Lleoliad hyfforddiant staff	117
Ffigur 21	Diddordeb gweithleoedd mewn trefnu hyfforddiant iaith ar y cyd	117-118
Ffigur 22	Disgwyliadau'r cyflogwr am ddefnydd y Gymraeg ymysg y dysgwyr yn y gweithle	119
Ffigur 23	Agweddau ar gefnogaeth gweithleoedd i staff sy'n dysgu Cymraeg	119
Ffigur 24	Dadansoddiad cryno o nod a phwrpas yr hyfforddiant a gynigiwyd	135-137
Ffigur 25	Barn darparwyr ynghylch ai ennill cymhwyster ynta sgiliau llafar sydd bwysicaf	155-156
Ffigur 26	Prif nodweddion y gyfundrefn hyfforddiant iaith yn ôl sefydliad	161
Ffigur 27	Ymateb CyG i draweffaith hyfforddiant iaith ar sail adroddiadau monitro blynyddol sampl o sefydliadau	177-178
Ffigur 28	Crynodeb o broffil y 3 Sefydliad a oedd yn destun astudiaeth achos	204
Ffigur 29	Rheswm staff dros ddysgu Cymraeg	206
Ffigur 30	Rhesymau staff dros ddysgu Cymraeg fesul sefydliad	207
Ffigur 31	Cyngor a roddwyd i staff am ddysgu Cymraeg ymlaen llaw	209
Ffigur 32	Y math o gwrs a ddilynwyd	210
Ffigur 33	Barn dysgwyr am yr angen am gyrsiau wedi eu teilwra	211
Ffigur 34	Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg hefo cydweithwyr wrth gyflawni eu Swyddi	212-213
Ffigur 35	Y graddau y mae'r cwrs wedi bod o gymorth i ddysgwyr siarad Cymraeg yn anffurfiol gyda chydweithwyr	214
Ffigur 36	Cymhariaeth rhwng defnydd anffurfiol o'r Gymraeg wrth i ddysgwyr gyflawni eu swyddi a'r cymorth a gynigiodd y cwrs iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol yn y gweithle	215-216
Ffigur 37	Y graddau y mae'r cwrs wedi bod o gymorth i ddysgwyr weithio trwy gyfrwng y Gymraeg	217

Ffigur 38	Cymhariaeth o'r graddau y mae'r cwrs wedi cynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda chydweithwyr ac i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg	218-219
Ffigur 39	Cymhariaeth rhwng defnydd ffurfiol o'r Gymraeg wrth i staff gyflawni eu swyddi a'r cymorth a gynigiodd y cwrs i'r staff er mwyn iddynt weithio trwy gyfrwng y Gymraeg	220-221
Ffigur 40	A oedd y sefydliadau yn gosod nod / targed i'w staff ar ddechrau cwrs?	223
Ffigur 41	Y graddau y mae'r cyflogwyr yn caniatáu amser o'r gwaith i dderbyn hyfforddiant Iaith	224
Ffigur 42	Y graddau y mae'r cyflogwyr yn caniatáu amser o'r gwaith i dderbyn hyfforddiant iaith - fel canran o'r atebion	225
Ffigur 43	Monitro cynnydd staff fesul Sefydliad	228
Ffigur 44	A oedd disgwyl i staff ennill cymhwyster wrth ddysgu?	230
Ffigur 45	Disgwyliadau ar y dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle	231
Ffigur 46	A oedd y cyflogwr yn darparu cyfleoedd i staff ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle?	231
Ffigur 47	I ba raddau y mae dysgu Cymraeg yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gyrfa? (Tabl)	233
Ffigur 48	I ba raddau y mae dysgu Cymraeg yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gyrfa? (Graff)	233
Ffigur 49	Cytundeb dysgwyr â'r datganiad bod digon o adnoddau ychwanegol ar gael i gefnogi eu dysgu y tu allan i'r dosbarth	235
Ffigur 50	A oedd gan ddysgwyr Fentor neu Gydweithiwr i ymarfer eu Cymraeg ag o/hi?	236
Ffigur 51	A oedd gweithgareddau dysgu anffurfiol yn cael eu trefnu ar gyfer y dysgwyr?	238
Ffigur 52	Agweddau am yr hyfforddiant iaith a oedd yn arbennig o dda	242
Ffigur 53	Beth fyddai wedi bod o gymorth i staff a oedd yn dysgu Cymraeg i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y Gweithle	242

CYDNABYDDIAETH A DIOLCHIADAU

Hoffwn i ddiolch i nifer o bobl a'm galluogodd i gyflawni a chwblhau'r traethawd hwn dros gyfnod rhy hir o amser!

Heuwyd hadyn y syniad o fynd ati i astudio ar gyfer gradd PhD yn ôl yn 2003 tra yr oeddwn i'n gweithio fel Cyfarwyddwr Cymraeg i Oedolion yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Deilliodd hyn o amryw o drafodaethau difyr a diddorol gyda'r Athro Colin H Williams (Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) a roes yr anogaeth gyntaf i mi fwrw ati gyda'r traethawd. Gwnaed hanner cyntaf y traethawd hwn dan ei oruchwyliaeth a'i arweiniad. Mae fy niolch iddo, nid yn unig am ei arweiniad cadarn a doeth bob amser, ond am ei barodrwydd cyson i drafod a gwyntyllu, ac am ei amynedd a charedigrwydd diddiwedd gyda myfyriwr a oedd yn cynnal gwaith ymchwil ar sail rhan-amser.

Yn dilyn derbyn swydd ym Mhrifysgol Bangor, cwblheais y traethawd hwn yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Carwn ddiolch yn arbennig hefyd i Dr Rhian Hodges o'r Ysgol honno am ei harweiniad clir a'm galluogodd i gwblhau ail hanner y traethawd hwn. Galluogodd y gefnogaeth gyson a gafwyd ganddi a chan Dr Cynog Prys (o'r un Ysgol hefyd) i mi gwblhau'r gwaith, ac mae fy ngwerthfawrogiad am y sylwadau a'r awgrymiadau a gefais ganddynt, ynghyd â'u hanogaeth ymarferol a chyson, yn fawr iawn. Roeddwn yn teimlo bod cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud ar ôl pob cyfarfod gyda nhw ac roedd hynny mor allweddol er mwyn cynnal ysbryd yr ymchwilydd hyd at y llinell derfyn!

Profodd gwneud yr ymchwil hwn tra'n ymhél â swydd amser llawn yn dipyn o her. Ni fyddai'r traethawd hwn wedi gweld golau dydd oni bai am gefnogaeth gadarn fy rheolwyr llinell ym Mhrifysgol Bangor, a sicrhaodd fod rhywfaint o amser yn cael ei neilltuo yn ystod yr wythnos waith i ymgymryd â'r ymchwil. Yn hyn o beth, mae fy ngwerthfawrogiad yn fawr i'r Athro Colin Baker, Ms Meri Huws a'r Athro Jerry Hunter.

Cafwyd cymorth parod gan staff mewn nifer o gyrff cyhoeddus ledled Gogledd Cymru (yn bennaf), wrth gyflawni'r gwaith maes, ac er eu bod yn rhy niferus i'w henwi, mae fy niolch

iddynt am eu cefnogaeth yn fawr iawn ac ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosib heb eu cyfraniadau gwerthfawr.

Yn olaf, carwn ddiolch i'm teulu am eu cefnogaeth a'u hamynedd di-ben-draw ar hyd y daith hon - i Nicola, Ianto ac Elin, ac i fy mam a nhad am eu hanogaeth gyson.